OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 2403 (Cy.257)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) (Diwygio) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *15 Medi 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *19 Medi 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *10 Hydref 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) mewn perthynas â mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffotoiechydol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) (Diwygio) 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Maent yn dod i rym ar 10 Hydref 2012.

### Diwygio Rheoliadau'r Tafod Glas ( Cymru) 2008

**2.**—(1) Mae Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli) yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

“ystyr “brechlynnau anweithredol” (“*inactivated vaccines*”) yw brechlynnau nad ydynt yn frechlynnau byw a wanhawyd;”;

“ystyr “brechlynnau byw a wanhawyd” (“*live attenuated vaccines*”) yw brechlynnau a gynhyrchir drwy addasu arunigion maes firws y tafod glas drwy gyfres o dramwyfeydd mewn meithriniadau meinweoedd neu mewn wyau ieir embryonog;”.

(3) Yn lle rheoliad 3 (esemptiadau) rhodder—

(**1**) 1972 p.68. Diwygiwyd adran 2(2) gan Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51), adran 27(1)(a), a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p.7), Rhan 1 o'r Atodlen.

(**2**) O.S. 2008/1792.

(**3**) O.S. 2008/1090 (Cy.116).

"**3.** Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran—

(a) unrhyw beth y mae person wedi ei awdurdodi i'w wneud drwy drwydded a roddwyd o dan Orchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Cymru) 2008(**4**);

(b) rhoi brechlyn at ddibenion ymchwil yn unol â thystysgrif prawf anifeiliaid a roddwyd o dan Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2011(**5**)."

(4) Yn rheoliad 13 (cyfyngiadau mewn parthau diogelu a pharthau gwyliadwriaeth) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Rhaid i barth gwyliadwriaeth a gafodd ei ddatgan gan Weinidogion Cymru beidio â chynnwys unrhyw dir lle y cafodd anifeiliaid eu brechu gan frechlynnau byw a wanhawyd yn erbyn y tafod glas o fewn y 12 mis diwethaf.

(1B) Ni chaiff neb frechu yn erbyn y tafod glas gan ddefnyddio brechlyn byw a wanhawyd mewn parth gwyliadwriaeth a gafodd ei ddatgan o dan y rheoliad hwn."

(5) Yn lle Rhan 3 (brechu) rhodder—

# "RHAN 3

## Brechu

### Cael gafael ar frechlyn

**17.** Ni chaiff neb ac eithrio deiliad awdurdodiad marchnata, awdurdodiad gweithgynhyrchu neu awdurdodiad deliwr cyfanwerthu a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2011 gael gafael ar frechlyn ac eithrio at ddiben galluogi'r defnydd o frechlynnau o dan reoliad 19.

### Gwahardd brechu

**18.** Ni chaiff neb frechu anifail yn erbyn y tafod glas ac eithrio yn unol â rheoliad 19.

### Defnyddio brechlynnau

**19.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi trwydded benodedig neu drwydded gyffredinol sy'n caniatáu defnyddio brechlynnau anweithredol neu frechlynnau byw a wanhawyd yn erbyn y tafod glas yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddatgan parth brechu lle y mae'n rhaid i unrhyw feddiannydd mangre neu geidwad anifeiliaid sicrhau bod eu hanifeiliaid yn cael eu brechu gan frechlynnau anweithredol neu frechlynnau byw a wanhawyd a chydymffurfio ag unrhyw fesurau eraill sy'n ymwneud naill ai â brechu neu frechlyn a bennwyd yn y datganiad hwnnw.

(3) Pan fo parth wedi ei ddatgan o dan baragraff (2), caiff arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad i feddiannydd mangre neu i geidwad anifeiliaid ar fangre sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r meddiannydd neu'r ceidwad hwnnw sicrhau brechu anifeiliaid yn y fangre â brechlynnau anweithredol neu frechlynnau byw a wanhawyd.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru roi trwydded o dan baragraff (1) neu ddatgan parth o dan baragraff (2) dim ond—

(a) os yw'r penderfyniad i ddefnyddio'r brechlyn wedi ei seilio ar ganlyniad asesiad risg penodedig a gyflawnwyd gan Weinidogion Cymru; a

(**4**) O.S. 2008/1270 (Cy.129), y gwnaed diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**5**) O.S. 2011/2159.

(b) os hysbyswyd Comisiwn yr UE am y penderfyniad hwnnw cyn i'r brechu hwnnw gael ei wneud.

(5) Pryd bynnag y mae brechlynnau byw a wanhawyd i'w defnyddio, rhaid i Weinidogion Cymru ddatgan—

(a) parth gwarchod sy'n cynnwys o leiaf yr ardal frechu; a

(b) parth gwyliadwriaeth sy'n ymestyn y tu hwnt i derfynau'r parth gwarchod lle na chafodd unrhyw anifail ei frechu â brechlynnau byw a wanhawyd yn erbyn y tafod glas o fewn y 12 mis diwethaf.

(6) Ni chaiff neb frechu yn erbyn y tafod glas gan ddefnyddio brechlyn byw a wanhawyd mewn parth gwyliadwriaeth a gafodd ei ddatgan o dan y rheoliad hwn."

*John Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o Weinidogion Cymru

15 Medi 2012

---

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 (O.S. 2008/1090 (Cy.116)) ("Rheoliadau 2008") drwy drosi Cyfarwyddeb 2012/5/EU sy'n diwygio Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/75/EC o ran brechu yn erbyn y tafod glas (OJ Rhif L 81, 21.3.2012, t.1).

Mae rheoliad 2(4) yn ychwanegu dau baragraff newydd i reoliad 13 (cyfyngiadau mewn parthau diogelu a pharthau gwyliadwriaeth) sy'n ymwneud â gofynion ar gyfer parthau gwyliadwriaeth.

Mae rheoliad 2(5) yn amnewid Rhan 3 newydd (brechu). Mae rheoliad 17 yn dynodi'r cyfyngiadau sy'n ymwneud â chael gafael ar frechlynnau. Mae rheoliad 18 yn darparu gwaharddiad cyffredinol ar frechu. Mae rheoliad 19 yn gosod yr amgylchiadau a'r amodau pan fo brechu gorfodol a gwirfoddol yn erbyn y tafod glas yn gallu digwydd.

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei lunio ar gyfer yr offeryn hwn, gan na ragwelir y bydd unrhyw effaith newydd ar y sector preifat, y sector gwirfoddol na'r sector cyhoeddus.